

Mark Drakeford AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid  
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref:

Mick Antoniwr AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

8 Chwefror 2018

Annwyl Mick

Yn ystod fy sesiwn dystiolaeth ynglŷn â chraffu ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) y Pwyllgor Cyllid ar 15 Ionawr 2018 ysgrifennais i'r Pwyllgor ynghylch y pŵer sydd yn y Bil i wneud diwygiadau canlyniadol, ac i ofyn a oes angen y geiriau "neu'n hwylus" a geir yn adran 78.

Wedi cael amser i ystyried, a gan mai mater i Weinidogion Cymru fydd gweithredu'r Bil Pwyllgor hwn, rwyf o'r farn bod y drafft presennol yn cynnig yr hyblygrwydd sydd ei ddirfawr angen. Bydd cynnwys y geiriau "neu'n hwylus" yn golygu bod modd gwneud darpariaeth a allai fod yn ddefnyddiol neu o fudd ymarferol, ond a allai fethu prawf 'rheidrwydd' llym. Enghraifft o'r math o ddarpariaethau a allai ddod o dan y categori hwn yw darpariaethau trosiannol, ac felly hefyd ddarpariaethau sy'n ceisio symleiddio neu egluro'r effaith a gaiff deddfiadau eraill yng ngoleuni'r newidiadau a wnaed gan y Bil. Mae'r Llywodraeth yn ystyried ei bod yn bwysig cadw'r hyblygrwydd i wneud darpariaeth o'r math hwn.

Mae'n werth cadw mewn cof hefyd fod y pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaeth yn cael ei gyfyngu gan y geiriau sy'n ymddangos ar ddiwedd adran 78(1), hy gellir gwneud y ddarpariaeth yn unig at ddibenion rhoi effaith lawn i ddarpariaethau'r Bil, o ganlyniad i roi effaith lawn i ddarpariaethau'r Bil neu er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaethau'r Bil.

Pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor, mynegais bryderon am adran 78 o'r Bil fel y'i draftiwyd ar hyn o bryd. Roeddwn am fod yn gwbl eglur y bydd y Llywodraeth yn dilyn y ddadl ar y mater hwn yn ofalus ac efallai y bydd angen iddi gyflwyno diwygiad, yn hwyrach yn ystod hynt y Bil, os bydd yn symud y tu hwnt i gyfnod un. Diben unrhyw ddiwygiad o'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fath fyddai egluro bod y pŵer yn adran 78 yn ymestyn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, yn y ffordd a ddarperir gan Ddeddf 2005.

Mae un mater arall yr hoffwn dynnu eich sylw ato, ac yr hoffwn ymddiheuro amdano. Wrth adolygu'r trawsgrifiad rwyf wedi sylwi bod yna wall ffeithiol yn y dystiolaeth a roddais. Mae gan yr Ombwdsmon derfyn amser o flwyddyn ar ymchwiliadau i gŵynion ar hyn o bryd, nid dwy flynedd fel a nodwyd gennyf yn fy nhystiolaeth, ac fel a gofnodwyd ym mharagraff 49 o'r trawsgrifiad.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark". The letters are cursive and slightly slanted to the right.

**Mark Drakeford AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid  
Cabinet Secretary for Finance